# Perthyn

Cylchgrawn Capel y Morfa ac Ebeneser Penparcau

Gorffennaf 2023 Rhifyn 318




Llun – Amelia Davies

# Gair y Gweinidog

Dwi ddim yn arddwr ond dwi'n hoffi gweld gardd daclus. Fi fydd yn torri'r lawnt a thacluso ambell wrych ond Alwen fydd yn plannu a dyfrio. Araf fuodd hi y flwyddyn hon a hynny oherwydd prinder planhigion. Y ddelfryd yw dechrau llenwi'r twbiau diwedd Mai ond mae'n amlwg fod pobl Aberystwyth wedi dechrau'r gynharach leni a bu'n rhaid mynd o un canolfan arddio i'r llall yn pwrcasu amrywiaeth o blanhigion addas. Y llinyn mesur pob blwyddyn yw llwyddiant neu fethiannau'r gorffennol ac oherwydd hynny, welwch chi byth flodau fel 'Melyn Mair' yn ein gardd. Fel y byddai mam yn ei ddweud "tydyn nhw ddim byd ond bwyd i'r malwod!"

Wedi'r compost a'r 'blood, fish and bone', fe ddaeth yr haul ac yn ddiweddar y glaw, a bellach mae yna dyfiant, gyda'r planhigion yn cryfhau ac yn prysur lenwi'r potiau. Geiriau mae rhywun yn ei glywed yn ddyddiol yw fod eisiau glaw, ac mae hynny'n wir a 'does yna ddim byd gwell na chyfnod o law i wyrddu gardd a chryfhau tyfiant.

Wrth feddwl am hynny, naturiol yw i ni feddwl am fywydau sy'n cael eu heffeithio gan natur a newidiadau yn yr hinsawdd. Bob tro y byddai'n darganfod fy hunan yn cwyno am boethder neu law diddiwedd, mi fyddai'n cael rhyw bwl o gywilydd. Fe all yr hyn sy'n drafferthus i un fod yn fendith i eraill ac felly'r alwad dyddiol i gadw golwg ar ein gweithredoedd yng ngoleuni ein perthynas â chreadigaeth a bywydau, yn fyd-eang ac yn lleol. Yma ac acw yn y rhifyn yma o Perthyn mae yna gyfeiriadau at weithredoedd a digwyddiadau sy'n dangos fel yr ydan ni fel eglwys yn ymateb i'r ddealltwriaeth o stiwardiaeth gywir a gofal am fywydau bregus; ein cefnogaeth i waith Cymorth Cristnogol; 'Man Cynnes' yn y Morlan; y Banc Bwyd. Yn y fan yma hoffwn ddiolch am eich cefnogaeth i Apêl Hadau Gobaith yr enwad ac er bod yr hinsawdd economaidd bresennol yn un fregus, da dweud ein bod fel eglwysi'r henaduriaeth wedi trosglwyddo

tros £8000 o bunnoedd i'r apêl. Y cyfrifoldeb o weld ein bywydau mewn perthynas â bywydau eraill ac i ymateb mewn cariad a thrugaredd.

Yng geiriau'r emynydd –

'ymateb i'w gri yn drugarog
rho brawf fod tosturi yn fyw,
mewn angen mae eisiau cymydog
sy'n tystio bod gras wrth y llyw'.

Elusengarwch, ond yn fwy na hynny, wrth i ni fel pobl crêd adnabod a diffinio bywyd yn nhermau dwyfol a cheisio byw yng ngoleuni y diffiniadau hynny a dim yn fwy na'r ddealltwriaeth o gymod ac o berthynas.

I mi mae tyfiant yr ardd yn symbolaidd o hynny ond mae yna rhywbeth arall hefyd. Diolch i Lywydd y Gymanfa Gyffredinol, Y Parch Evan Morgan, Caerdydd am ymateb i'm cais am ychydig eiriau, a hynny ar drothwy'r Gymanfa Gyffredinol. Nid gormodiaith yw dweud ei bod yn argyfwng ar y Gristnogaeth yn ein gwlad a'r sefyllfa drist o weld un addoldy ar ôl y llall yn cau. Tristwch pellach i mi yw'r diffyg gweledigaeth eciwmenaidd i ymateb i'r argyfwng yma ac o ganlyniad bodolaeth ardaloedd heb unrhyw dystiolaeth Gristnogol gweledol. Yn ddyddiol 'rwy'n clywed y geiriau "Beth ddaw ohonom?" a rhan amlaf yn ymateb gyda'r geiriau "gwaeth eith hi!", ond ar yr un pryd yn dal gafael ar y canlynol -

Geiriau'r Iesu i Pedr, y Pedr amherffaith yn Nghesarea Philipi –

'Ac rwyf fi'n dweud wrthyt mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau Hades y trechaf arni.'

(Mathew Pen 16 ad 18)

Efallai y bydd yr Eglwys yn crebachu ac yn newid yn y dyfodol ond fe fydd hi'n bodoli.

Mor ganlonogol yw'r arwyddion yna o fywyd sy'n amlwg yn y Gymru sydd ohoni. Arwyddion o ffydd a ffyddlondeb, gweledigaeth a gweithgaredd, yn tanlinellu fod Duw ar waith

er pa mor fychan bynnag yw'r Eglwys a'r dystiolaeth Gristnogol fel lefain ym mlawd ein gwlad. Gwerddon o fywyd ac o obaith.
Ac felly'r alwad i weddi, i geisio bendith Duw ar y cyfan wrth i ni adnabod ei ewyllys a phrofi o'i cynhliaeth a'i gysur.

DALIWN ATI!

Eifion.

# NEWYDDION

## Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at ein aelodau a'n cyfeillion sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi preswyl.
Dymunwn yn dda i Celia Jones a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 96 oed ar y cyntaf o Orffennaf.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mary Bott ar farwolaeth ei phriod, Mr. Frank Bott.
Cydymdeimlwn hefyd â Rachel a Lewis a'u teuluoedd ac anfonwn ein cofion at Mary yng Nghartref Cwmcynfelin.
Cydymdeimlwn â Rhiannon ac Eurig Salisbury a'r teulu ar farwolaeth dadcu Rhiannon, sef Mr.Daniel Rowlands Parry. Roedd yn hen-dadcu i Llew.

Cydymdeimlwn â Morfudd Strange a'r teulu ar farwolaeth brawd Morfudd, sef Mr. William Owen Williams a oedd yn byw yn Wigan.
Cydymdeimlwn â Katrine a Huw Chambers a'r teulu ar farwolaeth chwaer Katrine, sef Veronique Michel. Roedd oedd yn byw ym Mharis.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r plant, ieuenctid ac oedolion fu'n cystadlu ac a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri.

Llongyfarchiadau i Eurig Salisbury a Hywel Griffiths. Mae eu nosweithiau Cicio'r Bar a gynhelir yng Nghanolfan y Celfyddydau wedi ennill Gwobr Menter Aberystwyth 2023 yn yr adran Celf a Llenyddiaeth.

## Cyngerdd Dathliad Bywyd John Davies

Cynhaliwyd cyngerdd arbennig yng Nghanolfan y Celfyddydau ar Fehefin 8fed i ddathlu ac i ddiolch am gyfraniad gwerthfawr y diweddar Mr. John Davies i fywyd cerddorol tref Aberystwyth a'r ardal. Roedd nifer o'n aelodau - yn blant, ieuenctid ac oedolion yn cymryd rhan ar y llwyfan. Roedd y ffaith bod cynifer wedi teithio o bell i ymuno yn y band a'r grwpiau offerynol yn arwydd o'u parch at John, a'u gwerthfawrogiad o'r hyfforddiant a'r gefnogaeth a dderbyniasant ganddo.

## Cofion

Rydym yn meddwl am Mrs. Ann Davies, Angharad a Rhodri a'r teulu ac yn anfon ein cofion atynt

# Newyddion Ebeneser



## Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser. Cofiwn yn arbennig am y rhai sydd mewn ysbyty neu gartref gofal, a'u teuluoedd hefyd.

## Gwasanaethau

Cynhaliwyd dau wasanaeth yn ystod mis Mehefin - Gwasanaeth Cymun o dan ofal ein Gweinidog, Y Parch Eifion Roberts ar ddydd Sul Mehefin 4ydd a gwasanaeth hefyd ar Mehefin y 18fed.

Edrychwn ymlaen at y Gwasanaeth Cymun ar ddydd Sul Gorffennaf y 3ydd a gwasanaeth ar yr 16eg o dan arweiniad ein Gweinidog.

# RHESTR BLODAU

2 Gorffennaf - Violet Holden a Joyce Knight
9 Gorffennaf - Dai Alun a Jane Jones
16 Gorffennaf -
23 Gorffennaf -
30 Gorffennaf - Mary Thomas

Diolch yn fawr i'r rhai sydd wedi rhoi eu henwau ar y rhestr yn y cyntedd.

# CÔR GOSPEL PRIFYSGOL ALABAMA




Ar Fedi'r 15fed, 1963 ffrwydrodd bom oedd wedi ei osod gan aelodau lleol o'r Ku Klux Klan yn eglwys y 16th Street Baptist Church, Birmingham, Alabama. Lladdwyd Addie Mae Collins (14), Cynthia Wesley (14), Carole Robertson (14), a Carol Denise McNair (11) ac anafwyd nifer fawr o'r gynulleidfa.

Dywedodd Dr. Martin Luther King ar y pryd mai dyma “one of the most vicious and tragic crimes ever perpetrated against humanity". Daeth y trychineb i fod yn garreg filltir allweddol yn ymgyrch i sicrhau hawliau dynol yn Unol Daleithiau America.

Yma yng Nghymru cafwyd ymgyrch codi arian gan y Western Mail, wedi ei symbylu gan ymateb John Petts yr arlunydd gwydr lliw oedd ar y pryd yn Ysgol Gelf Caerfyrddin, i’r trychineb. Roedd John Petts am gynllunio ffenestr liw fyddai’n gyfle i’r artist ymateb i’r hyn oedd wedi digwydd fel “tad a chrefftwr”.

Anfonwyd at y Parch. John Cross, gweinidog yr eglwys yn Birmingham gan ddatgan bod “pobl Cymru'n cynnig ail-greu a chodi ffenestr lliw i ddisodli'r un sydd wedi'i chwalu yn y bomio o'ch eglwys. Maent am wneud hyn fel symbol o gysur a chefnogaeth”. Yn ôl yr ymateb a gafwyd Cymru oedd yr unig wlad i gynnig “cymorth uniongyrchol a materol”.

Ar y 4ydd o Fehefin eleni bu i dorf enfawr ymgynnull ar y Prom, yma yn Aberystwyth, i gydaddoli gyda Chôr Gospel Prifysgol Alabama yn Birmingham (UAB) ac i gydnabod y berthynas arbennig rhwng Cymru a Birmingham, Alabama.

Roedd y canu, dan arweiniad Dr. Reginald Jackson, yn ysbrydoledig a digon o gyfle i’r gynulleidfa ymuno gyda’r côr. Roedd lleisiau’r unawdwyr yn rhyfeddol a’r cyfuniad o leisiau’r myfyrwyr yn wefreiddiol. Roedd hi’n wych clywed côr oedd yn hyderus wrth ganu yn Gymraeg, yn amlwg yn mwynhau'r profiad o berfformio gydag elfen gref o ddathlu.


Cafwyd unawdau nid yn unig gan nifer o gerddorion ond hefyd gan offerynwyr talentog oedd yn cynnwys yr arweinydd ei hun ar y sacsoffon. Erbyn hyn, roedd y côr a’r dorf fel un a llawer

yn edrych ymlaen at glywed y côr unwaith eto ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ychydig ddyddiau’n ddiweddarach.

Yr hyn sy’n drawiadol am y ffenestr liw yw ei bod yn portreadu'r Crist croeshoeliedig fel dyn sydd yn ddu ei groen a hynny’n ddatganiad dadleuol iawn ar y pryd. Fodd bynnag, dywedodd  gweinidog presennol yr eglwys, y Parchedig Arthur Price Jr.  “I think the major message we try to take out of the window is not so much identifying Christ's colour but knowing that Christ identifies with us”.

Roedd y pnawn ar y Prom yn ddathliad eneiniedig ble roedd dwy gymuned wedi dod yn un i ddathlu’r cysylltiad rhyngom yn enw Crist y Gwarewdwr -  profiad fydd yn aros am byth yn y cof.

Dilwyn Roberts.



# YR YSGOL SUL

Yn dilyn Sul y Pentecost buom yn dysgu am ffrindiau Iesu yn rhannu'r Newyddion Da yn nerth Yr Ysbryd Glân – Pedr a Ioan yn iachau'r dyn cloff wrth y Porth Prydferth,  Dorcas a Lydia. Roedd Dorcas yn gwnio dillad ac yn garedig wrth bawb yn y dref. Roedd Lydia yn wraig gyfoethog a oedd yn lliwio a gwerthu dillad porffor.  Daeth Paul a Barnabas i aros yn ei thŷ yn Philipi. Ar ôl  iddynt weddio gyda hi daeth Lydia i adnabod Iesu ac aeth ymlaen i rannu'r Newyddion da.

Yn y lluniau gwelir gwaith edau a nodwydd Dorcas a rhes o ddillad porffor Lydia.




Dorcas


Dorcas


CROESO I'R YSGOL SUL
TYFU
yng Nghapel y Morfa
Dorcas


Diolch
am neges
Iesu
Croeso i dŷ Lydia
Croeso
Iesu



# Bore Sul – Gorffennaf 16eg

Gwasanaeth diwedd tymor Yr Ysgol Sul am **10.30**
**(Sylwch ar yr amser)**
Brecwast yn y festri am 9.30. cyn y gwasanaeth
Gwahoddir chi'n gynnes i ddod i'r brecwast.

Thema : Y Trysor

Gwahoddir cyfraniadau o fwyd tin neu sych i'r Banc Bwyd.

Bydd aelodau capel Hen- dy-gwyn-ar-Daf a fydd ar eu gwibdaith blynyddol yn ymuno yn y gwasanaeth.
Mae'n bwysig ein bod yn aros i'w cyfarfod a'u croesawu dros baned yn y festri ar ôl y gwasanaeth.

## Cinio Bara a Chaws dan nawdd Cymorth Cristnogol

Bydd y cinio Bara a Chaws nesa' yn cael ei gynnal yn Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon, ddydd Llun, 3ydd o Orffennaf, o hanner dydd tan hanner awr wedi un o'r gloch.
Dewch i gefnogi . . .

Croeso cynnes i bawb!

## Casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol, 14 – 20 o Fai. Diolch!

Fe gofiwch i ni gasglu i gefnogi gwaith caled gwragedd fel Esther a Jen yn Malawi eleni. Maen nhw'n sefydlu busnesau bach i sicrhau dyfodol hapusach a saffach i'w plant. Diolch i bawb a gyfrannodd. Casglwyd y swm anrhydeddus o £635.

Gwerthfawrogir eich haelioni yn fawr.

# Cyfweliad gyda Llywydd y Gymanfa Gyffredinol

Fe’m ganwyd a'm magu ar fferm ar gyrion Gogledd Llundain, yn drydedd cenhedlaeth o Gymry Llundain a’m teulu yn hanu’n wreiddiol o Shir Gâr. Cefais fy magu yng nghapel Wood Green yn Henaduriaeth Llundain a mawr oedd dylanwad ein Gweinidog, y diweddar annwyl Huw Llewelyn Jones, a chefnogaeth Gweinidogion eraill ac aelodau holl eglwysi Llundain ar y pryd arnaf.

Teimlais yr alwad i'r Weinidogaeth a graddiais mewn Diwinyddiaeth a dilyn cwrs bugeiliol yn Aberystwyth. Derbyniais alwad i Henaduriaeth Trefaldwyn Uchaf i ofalaeth Dyffryn Dyfi a gwasanaethais gapeli Maengwyn, Capel Saesneg Machynlleth, Pantperthog, Derwenlas, Forge a Melinbyrhedyn. Ar drothwy'r mileniwm derbyniais alwad i fod yn fugail ar eglwysi Salem,Treganna a Bethel, Rhiwbeina yng Nghaerdydd.

Cefais y fraint o draddodi Darlith Davies yn y Gymanfa yn 2019 ar y testun yr Eglwys Gynhwysol. Dyma athrawiaeth sydd wedi bod yn sail i fy ngweinidogaeth ar hyd y blynyddoedd. Yn hytrach na chau pobl allan, ac rydyn ni wedi bod mor euog o hyn, a bod yn feirniadol o bwy mae pobl yn eu caru, er enghraifft, credaf fod cariad Duw yn gallu ymestyn allan a chofleidio pob un sydd yn chwilio am gartref ysbrydol ac ymdeimlad o berthyn, beth bynnag eu lliw, oed neu rywedd. Credaf hefyd fod yr Eglwys i fod yn rhan o gymuned ac nid yn rhywbeth ynysig, elitaidd bron, ac yn barod i gynnig cariad Duw mewn ffordd ymarferol. Yn bersonnol, teimlaf bod y gwaith o fugeilio yn hollbwysig, mae bod yno i wrando, i galonogi ac i gysuro yn rhan allweddol o rôl gweinidog. Ystyriaf cael fy ethol yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol fel anrhydedd mwya fy mywyd. Bu’n rhaid estyn y tymor i ddwy

flynedd ac mae'n rhaid cyfaddef i hyn fod yn gyfnod anodd i mi a'm gofalaeth. Ond er hynny, roedd bod yn rhan o dîm arwain ymgyrch Hadau Gobaith a cherdded ym mhob Henaduriaeth i godi ymwybyddiaeth a chwrdd â chynifer o'n haelodau yn bleser ac yn gyfle hyfryd i ddod i adnabod a thrafod gyda chymaint o bobl ar y ffordd. Er bod ein niferoedd yn crebachu, rydyn ni'n dal mor ffodus i gael pobl sydd yn weithgar yn eu heglwysi a'u hardaloedd.

Cefais y cyfle i gynrhychioli'r Cyfundeb mewn llysoedd enwadau eraill ac fe elwais yn fawr o allu siarad a rhannu cymdeithas gyda chymaint o'n cyd Gristnogion. Braf oedd gwrando, dysgu a deall bod ein problemau ni yma adre yn gyffredin iawn ar draws nifer o wledydd ac enwadau eraill. Braint ac anrhydedd eleni oedd bod yn Taiwan ar gyfer Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Taiwan yn Taipei. Yno treulias amser gyda Carys Humphreys a dod i ddeall mwy am y sefyllfa yno. Rwy'n siwr ein bod ni i gyd yn gweddio dros yr Eglwys a Taiwan oherwydd y bygythiad real a chyson o gyfeiriad China.

Edrychaf ymlaen nawr at y Gymanfa ac wedyn, ar ôl gwyliau, dychwelyd yn llawn amser a llawn egni i'm gofalaeth ym mis Medi.



# CYFARFODYDD CYHOEDDUS / RHITHIOL
# Y GYMANFA GYFFREDINOL
# 10-12 Gorffennaf, 2023

**Prynhawn Llun, 10 Gorffennaf**
**2:00pm**

GWASANAETH CYMUN A CHOFFÂD
I Bregethu: Parchg. Anna Jane Evans, BA, BD, Caernarfon

---

**Nos Lun, 10 Gorffennaf**
**7:00pm**

NEGES:
Siaradwr Gwadd: Y Parchg. Ddr Robert Cunville
Eglwys Bresbyteraidd India
'Cyflawni Ei Gomisiwn'
'Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd' (Mathew 28:19)

---

**Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf**
**11.45am**

Y DDARLITH DAVIES
Darlithydd: Parchg. Huw Ll Powell-Davies, BA, BD, Yr Wyddgrug
Testun:

‘Argraff o genhadaeth: Golygon ar y Genhadaeth Gymreig yn yr India’

**Nos Fawrth, 11 Gorffennaf**
**7:30pm**

ARAITH YMADAWOL Y LLYWYDD

Y Parchg. Evan Morgan, BD, Caerdydd
TROSGLWYDDO’R LLYWYDDIAETH
Y Parchg. O. Aneurin Owen, BD, DipACC, Llansannan

---

**Dydd Mercher, 12 Gorffennaf**
**11:45am**

DARLITH Y GYMDEITHAS HANES

Darlithydd: Parchg Philip H Eveson, BA (Wales), MA (Cantab), MTh (London), Wrecsam
Testun:
‘The 1823 Confession of Faith – a forgotten classic’

---

**YR HOLL GYFARFODYDD I’W CYNNAL YN DDWYIEITHOG AC YN RHITHIOL HEBLAW AM Y NEGES NOS LUN A’R DDARLITH HANES A DRADDODIR YN SAESNEG**
**Cyfeirnod: 864 0899 7467 Passcode: 109600**



# GWEDDIWN

O Fewn Cyrraedd

Diolch i ti, Arglwydd
dy fod o fewn cyrraedd bob awr o bob dydd a'r nos,
ar dywydd mawr ac ar dywydd braf.
Ond y mae'n rhaid i mi gyffesu, Arglwydd,
mai gofyn am rywbeth gennyt y byddaf braidd bob tro;
mai 'dyro' yw byrdwn fy sgwrs pan alwaf arnat.
Anaml y galwaf arnat am fod dy sgwrs yn felys;
mae pob dydd mor llawn a minnau mor brysur
fel mai anaml y galwaf arnat ond i'th ddefnyddio.
Maddau i mi, Arglwydd trugarog

AMEN

R. Gwilym Hughes, 1910–97, Amser i Dduw, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

# SULIAU MIS GORFFENNAF

## Blaenor y mis – Rhys Jones

2 Gorffennaf – Y Parch Eifion Roberts (Cymun)

9 Gorffennaf – Y Parch Megan Williams

16 Gorffennaf – Oedfa diwedd tymor yr Ysgol Sul

23 Gorffennaf – Y Parch Wyn Morris

30 Gorffennaf – Y Parch Eifion Roberts

**Yr holl oedfaon am 10 o'r gloch.**

Golygyddion Gorffennaf – Eifion ac Alwen Roberts

Golygyddion Awst / Medi - Eifion ac Alwen Roberts

eifionroberts095@btinternet.com

**Deunydd i law erbyn Gorffennaf yr 21ain**